Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20fed Mawrth 2006

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol i wyliau. (WAQ46277)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae'n annog twristiaid sy'n ymweld â Llundain i ddod i Gymru. (WAQ46278)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A yw'r Gweinidog wedi ystyried ailgyflwyno 'desg Cymru' i Ganolfan Groeso yn Llundain. (WAQ46279)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer marchnata Cymru fel cyrchfan dwristiaeth yn y dyfodol. (WAQ46280)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer marchnata Cymru fel cyrchfan dwristiaeth ar gyfer cynulleidfa ehangach. (WAQ46281)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r sector twristiaeth, ar wahân i'r hyn a roddir i'r ddarpariaeth llety. (WAQ46282)

Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch y goblygiadau ariannol i'w chyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan ac, os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei gynnwys. (WAQ46263)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau ariannol i'w chyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan. (WAQ46267)

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch y goblygiadau ariannol i'w gyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan ac, os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei gynnwys. (WAQ46260)

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Leanne Wood (Canol De Cymru): Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog ynghylch yr effaith ar elfen praesept yr heddlu yn sgîl uno pedwar heddlu Cymru yn (a) ardal heddlu De Cymru (b) heddlu Gogledd Cymru (c) heddlu Dyfed/Powys a (ch) ardal heddlu Gwent. (WAQ46258)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Gyllid, wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch y goblygiadau ariannol i'w chyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan ac, os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei gynnwys. (WAQ46262)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch y goblygiadau ariannol i'w chyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan ac, os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei gynnwys. (WAQ46264)

Leanne Wood (Canol De Cymru): Pa baratoadau cyllidebol mae'r Gweinidog wedi eu gwneud ar gyfer pasio'r mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan. (WAQ46268)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau ariannol y cynnig i uno heddluoedd Cymru ar y grant bloc. (WAQ46269)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y posibilrwydd o gael canlyniad Barnett yn sgîl darpariaethau'r Mesur Cardiau Adnabod. (WAQ46270)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y Mesur Cardiau Adnabod ar grant bloc y Cynulliad Cenedlaethol gan San Steffan. (WAQ46271)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiadau neu wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda swyddogion neu Weinidogion eraill am effaith y Mesur Cardiau Adnabod ar grant bloc y Cynulliad Cenedlaethol gan San Steffan, ac os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r cynnwys. (WAQ46272)

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Yn dilyn ei hateb i WAQ45957, beth yw'r cyfanswm gan gynnwys postio. (WAQ46273)

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad o oblygiadau ariannol pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan ar ei gyllideb ac, os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei gynnwys. (WAQ46259)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau ariannol i'w gyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan. (WAQ46266)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y stociau o'r cyffur gwrth-feirws Tamiflu sydd gan y GIG yng Nghymru. (WAQ46274)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog restru'r meddygfeydd, yr ysbytai a/neu fannau eraill sy'n eiddo i'r GIG yng Nghymru sydd â stociau o'r cyffur gwrth-feirws Tamiflu a sawl cwrs o'r cyffur sydd ar gael ymhob lleoliad. (WAQ46275)

Leanne Wood (Canol De Cymru): Pa baratoadau mae'r Gweinidog wedi eu gwneud ar gyfer dosbarthu'r cyffur gwrth-feirws Tamiflu gan GIG Cymru. (WAQ46276)

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Leanne Wood (Canol De Cymru): A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch y goblygiadau ariannol i'w chyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan ac, os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei gynnwys. (WAQ46261)

Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau ariannol i'w chyllideb yn sgîl pasio'r Mesur Cardiau Adnabod yn San Steffan. (WAQ46265)